ERDF

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop

Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund



Photograph © www.incredibleindia.org

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arddangosfa Fasnach yn Big 5 Construction India 2013

**Arddangosfa Llywodraeth Cymru yn Big 5 Construction India, 31 Awst – 5 Medi 2013.**

www.cymru.gov.uk

## Prif Sectorau

Adeiladu, Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch, Ynni a'r Amgylchedd

## Trefn y Daith

| | |
|---|---|
| 31 Awst | Gadael am Mumbai. |
| 1 Medi | Paratoi'r arddangosfa. |
| 2-4 Medi | Big 5 Construction. |
| 5 Medi | Dychwelyd i'r DU. |

## Cost

Cost cymryd rhan i gwmnïau cymwys o Gymru yw **£780** (gyda Llywodraeth Cymru yn helpu â hanner y gost). Hyn yn cynnwys:

- tocynnau hedfan dwyffordd
- cludiant yn India
- 5 noson o lety a brecwast
- mynediad i'r arddangosfa .

I'r rheini sy'n ymweld â'r sioe, cynigir nawdd ar gyfer un cynrychiolydd o gwmni o Gymru.

I'r rheini sy'n arddangos yn y sioe, cynigir nawdd ar gyfer dau gynrychiolydd o gwmni o Gymru.

Codir ffi arddangos o **£1500** yn unig fesul cwmni.

## Dyddiad cau

22 Gorffennaf 2013

## Mynd â Chymru i'r Byd

## Y Cynnig

Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd cwmnïau o Gymru i fynychu ei harddangosfa yn Big 5 Construction India ym mis Medi 2013. Mae'r arddangosfa hon a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yn cynnig cyfle cyffrous i fusnesau o Gymru arddangos yn Big 5 Construction India neu ymweld â hi er mwyn manteisio ar gysylltiadau busnes allweddol o bob rhan o India.

## Big 5 Construction India

Bydd yr arddangosfa yn tynnu sylw at lu o wahanol nwyddau adeiladu, o ddeunyddiau adeiladu trwm i ddeunyddiau gosod allan, a bydd yn rhoi cyfle i'r ardddangoswyr hybu eu cynnyrch a chyfarfod wyneb yn wyneb â phrynwyr o'r prosiectau mwyaf yn India. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwasanaethau Adeiladu
- Cyfarpar Diogelwch a Diogeledd
- Technoleg Dŵr
- Gwres, Awyru ac Aerdymheru
- Atal a Diogelu rhag Tân
- Systemau Trydan
- Adeiladu Gwyrdd
- Cynhyrchion Addurno
- Deunyddiau a Phiblinellau
- Ynni Solar

Mae sector Adeiladu a pheirianneg India werth dros $400 biliwn ac mae wedi cynyddu oddeutu 10% bob blwyddyn ers 5 mlynedd bellach. Mae'r twf hwn yn deillio o wahanol seilwaith trafnidiaeth, datblygiadau trefol a phrosiectau cynhyrchu pŵer.

## Cysylltwch

Busnes Cymru Business Wales

I ddysgu mwy ac i gofrestru ar gyfer y daith fasnach hon, cysylltwch â'r Llinell Gymorth Gwybodaeth Busnes i siarad ag un o'n swyddogion profiadol.

E-bost: **businesssupport@wales.gsi.gov.uk**
Ffôn: **+44 (0)3000 6 03000**

WG18388 / G/MH/4736 / 0613 / © Hawlfraint y Goron 2013